# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

## COFNODION
## MEDI 2014

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 17 Medi |
| **AMSER** | 7.00pm |
| **LLEOLIAD** | Ysgol Rhostryfan |
| **AELODAU'N BRESENNOL** | Gwilym L.Williams (cad), Tom Ellis, Michelle Williams, Gwilym V.Thomas, Nerys Evans, Elwyn Jones, Neal Williams, Jason Hunt, Aeron M.Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Bethan Williams (clerc) |

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Croeso** | |
| 2. | **Ymddiheuriadau** | |
| 3. | **Datgan Buddiant**<br>Eitem cynllunio – Aeron M.Jones | |
| 4. | **Cadarnhau cofnodion**<br>Cadarnhawyd fod cofnodion mis Gorffennaf yn gywir. | |
| 5. | **Materion i'w trafod:**<br>a. Swydd Clerc – yng nghyfarfod a drefnwyd ar 9fed o Fedi, penodwyd Caryl Lewis yn glerc i Gyngor Cymuned Llanwnda. Gobeithir y bydd Caryl yn dechrau'r gwaith ym mis Hydref. O ran graddfa cyflog, trafodwyd y lefel o ran profiad. Cytunwyd ar y ffigwr o£9 yr awr.<br>b. O ran prynu offer – rhoi uchafswm o £400 + VAT. Danfon cadarnhad o faint ydy'r gost, danfon siec ymlaen.<br>c. Cronfeydd Cist Gwynedd – cadarnhad ein bod wedi derbyn £500 o grant tuag at ddatblygu gwefan newydd drwy Antur Nantlle. | |
| 6. | **Derbyn Adroddiadau** | |
| 7. | **Is-bwyllgorau** | |
| 8. | **Materion Ariannol**<br>Cyfri Cadw:<br>Cyfri Siec:<br>Taliadau:<br>Bethan Williams – cyflog Medi<br>Cyllid y Wlad Medi<br>Hysbyseb swydd – Trinity Mirror | <br>18334.81<br>3133.39<br><br>418.67<br>98.40<br>585.60 |
| 9. | **Materion Cynllunio**<br>C14/0836/24/LL – Caer Moel, Dinas – newidiadau i gais blaenorol. Dim sylwadau.<br><br>C14/0659/24/AM – Codi 6 ty fforddiadwy a mynediad newydd, tir dros y ffordd i Glanrhyd Isaf, Dinas, Llanwnda. AMJ datgan buddiant. Deiseb wedi mynd mewn i'w wrthwynebu, adran gynllunio angen profi angen am y tai. Cynnig eu gwerthu fel plot unigol i rieni/pobl ifanc. | |

| | |
|---|---|
| | C14/0731/24/LL – tir ger Y Goat, Llanwnda - newid amod 2 caniatad cynllunio<br>C09A/0303/24/LL – decio yng nghefn 2 dy ac ail leoli modurdy.<br><br>Cafwyd ymholiad gan aelod o'r cyhoedd am ddatblygiad ar Heulfryn, Rhostryfan. Nid yw'r cyngor yma yn ymwybodol o unrhyw gais cynllunio. Dim sylw. |
| 10. | **Gohebiaeth:**<br>a. Llythyr gan Bwyllgor Cae Chwarae Rhosgadfan yn nodi eu bod wedi bod yn llwyddiannus gyda chais am grant i Mantell Gwynedd, a'u bod yn mynd i dderbyn £13,000 . Byddant yn ail ffensio, lefelu a wynebu'r safle, a gobeithio gosod yr offer cyntaf cyn diwedd y flwyddyn.<br>b. Cylchgronnau |
| 11. | **Materion Mis Nesa**<br>a) Sgwennu at Swyddfa'r Bost i ofyn be ydy'r diweddara am swyddfa Rhosgadfan.<br>b) Mynyddoed Pawb – cynllun i geisio cadw enw llefydd – angen gyrru ein cefnogaeth.<br>c) ElJ – pont ar lein Bryngwyn, daeth yr afon drosodd ger Garreg Lwyd yn ystod y tywydd garw. Llythyr at Paul Lewin, Rheilffordd Eryri i nodi ein pryder am y bont, awgrymu fod pawb yn dod at ei gilydd i geisio symud y peth ymlaen. Gobeithir maes o law gweithio efo asiantaethau a sefydliadau eraill i geisio am grant i adnewyddu'r bont.<br>d) GVT – bocsys grit – ben allt Dafarn, y bin wedi malu.<br>e) NE – sgwennu llythyr i Express Motors i ddatgan ein siom.<br>f) NE – angen llongyfarch Lleucu Roberts – clerc i ysgrifennu ati.<br>g) JH – wedi cael caniatad ar ran criw y rhandir i gael tynnu giat y llwybr dros dro.<br>h) JH – lamp wedi malu wrth ymyl 19 Bro Wyled<br>i) Cae'r Moel, Alun Tomlinson – Rheilffordd Ffestiniog, Dinas. |
| | **Daeth y cyfarfod i ben am 8.35pm** |
| | **Dyddiad Cyfarfod nesaf: Hydref 15fed** |